# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4991

# 145

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.20

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Dechreuodd yr eitem am 14.58

## 4 Datganiad gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Wythnos Ffoaduriaid - Cymru, Cenedl sy'n Noddfa

Dechreuodd yr eitem am 15.38

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Lles Anifeiliaid Anwes

Dechreuodd yr eitem am 16:29

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Gwneud i'r Blynyddoedd Cynnar Gyfrif – TYNNWYD YN ÔL

## 7 Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018

Dechreuodd yr eitem am 17.11

**NDM6742** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mai 2018.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl: Cyfnod 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.23

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.67, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ei fod wedi derbyn gorchymyn gan Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw i roi gwybod i'r Cynulliad fod y ddau ohonynt, ar ôl cael gwybod am gynnwys Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), wedi rhoi eu cydsyniad i'r Bil.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.50C, rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar gynigion Cyfnod 4, felly gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig hwn tan y cyfnod pleidleisio.

**NDM6746** Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 5 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Dadl: Dwy Flynedd ers Refferendwm yr UE

Dechreuodd yr eitem am 17.43

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM6741** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y bydd dwy flynedd wedi pasio ers y Refferendwm ar yr UE ar 23 Mehefin 2018.

2. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i'r ymagwedd at y trefniadau pontio wrth ymadael â'r UE sydd yn y Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Ionawr 2017, ac yn credu mai dyma'r ffordd orau o hyd i sicrhau canlyniad boddhaol i'r negodiadau ar Brexit.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod Llywodraeth y DU yn cyflawni ar y penderfyniad a wnaed yn refferendwm yr UE i adael yr UE ac na ddylid tanseilio ei safbwynt mewn trafodaethau gyda'r UE.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 38 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod mai ewyllys pendant y bobl yw bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn galw ar wleidyddion y Deyrnas Unedig sydd yn erbyn gadael yr UE i barchu dymuniadau pleidleiswyr Cymru a Phrydain a rhoi'r gorau i geisio tanseilio proses Brexit.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau'r fargen orau i Gymru a'r DU, y tu allan i'r UE, y farchnad sengl a'r undeb tollau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 35 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU i gyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er ei bod wedi dweud yn glir yn 'Diogelu dyfodol Cymru' y byddai "unrhyw ymgais o’r fath yn cael ei gwrthwynebu’n gadarn" ganddi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 3 | 40 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4** – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod mwyafrif o Aelodau Seneddol Llafur wedi ymatal mewn pleidlais ar barhau i gymryd rhan yn y farchnad sengl drwy aelodaeth o’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, yn groes i 'Diogelu dyfodol Cymru' sy'n dweud, "Nid oes

modd i ni gefnogi cytundeb i ymadael â'r UE a fyddai'n golygu nad yw'r DU yn parhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 43 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM6741** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi y bydd dwy flynedd wedi pasio ers y Refferendwm ar yr UE ar 23 Mehefin 2018.

2. Yn ailddatgan ei gefnogaeth i'r ymagwedd at y trefniadau pontio wrth ymadael â'r UE sydd yn y Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Ionawr 2017, ac yn credu mai dyma'r ffordd orau o hyd i sicrhau canlyniad boddhaol i'r negodiadau ar Brexit.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 15 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.43

Daeth y cyfarfod i ben am 18.45

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 20 Mehefin 2018**